

Dysgu o bell sy'n fyddar gyfeillgar: rhestr wirio i athrawon



Mae dysgu ar-lein yn cynnig heriau a chyfleoedd i bob disgybl, boed trwy ddysgu o bell ac yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan ddysgu ar-lein o bell gyfleoedd a heriau tebyg ond nad yw dysgwyr yn cael mynediad at yr un gefnogaeth a chyswllt cymdeithasol. Gall hyn gael effaith negyddol ar blant byddar sydd mewn perygl o gael eu hynysu yn fwy oherwydd eu hanghenion iaith a chyfathrebu.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys awgrymiadau ymarferol i'ch helpu chi lleihau unrhyw effaith negyddol, ac am yr addasiadau rhesymol gallwch chi eu gwneud i sicrhau na fydd plant byddar o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw newid i ddysgu ar-lein.

Cynllunio

Mae gan ddisgyblion byddar anghenion a dewisiadau dysgu unigol a bydd rhaid i chi eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno dysgu ar-lein o bell. Sicrhewch eich bod chi'n gyfarwydd ag anghenion disgybl trwy siarad â'i Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCo) (neu gyfatebol) ac Athro Plant Byddar, ac yn rhannu'r cynnwys gyda nhw a gofyn am adborth.

Wrth gynllunio gwersi ar-lein o bell, meddyliwch am:

- Sut ydych chi am gynnig cysylltiad i ddisgyblion byddar gyda'i gilydd a gyda chi. Mae cadw perthnasau yn ganolog yn hanfodol i ddisgyblion byddar a all deimlo ar wahân neu'n ddigyswllt.
- A ydych chi'n ymwybodol o fyddardod ac a ydych chi wedi meddwl am sut i gwrdd ag anghenion cyfathrebu a chymorth y disgybl byddar?
- A ydy'ch cynnwys addysgol yn addas i gael ei gyflwyno trwy lwyfan ar-lein o bell neu a fydd rhaid ichi ei addasu? Mae [ein blog](#) yn cynnwys mwy o wybodaeth am wneud dysgu ar-lein yn hygyrch.
- A ydych chi wedi cydbwysu dysgu sydd wedi ei recordio a'i greu o flaen llaw gyda dysgu ar-lein wyneb yn wyneb byw?
- A oes gan y disgybl yr offer a'r adnoddau sydd angen arnyn nhw i ddysgu'n annibynnol? Os na, pa gymorth sydd angen arnyn nhw i gael mynediad at ddysgu yn yr un modd â'i gyd-ddisgyblion?
- A ydy unrhyw asesiadau ar-lein yn hygyrch?

Gwneud dysgu ar-lein o bell yn hygyrch

Isod amlinellir sawl peth i chi eu hystyried.

Byddwch yn ymwybodol o fyddardod

- A ydy'ch dull o gyfathrebu yn hygyrch i ddysgwyr byddar? Am ffordd hawdd i brofi hyn, trowch y sain i lawr a gofynnwch i ffrind neu gyd-weithiwr pa mor hawdd yw deall cynnwys eich gwersi neu gyflwyniad.
- Pan fyddwch chi'n siarad, sicrhewch fod eich wyneb wedi'i oleuo'n dda ac mae'n bosib ei weld yn glir. Peidiwch â gorchuddio'ch wyneb neu geg gyda'ch dwylo, neu droi i ffwrdd o'r camera. Mae plant byddar yn defnyddio cliwiau gweledol yn ogystal â gwybodaeth glywedol i'w helpu nhw dysgu.
- Pan fyddwch chi'n darllen stori, gosodwch eich hunan fel bod y disgybl byddar yn gallu gweld y llyfr/tudalen a'ch wyneb.

Cyfathrebwch yn glir

- Os yw'n briodol gadewch i ddisgyblion gael mynediad at gynnwys neu arolwg gwers cyn y sesiwn, er mwyn iddyn nhw ddod yn gyfarwydd â dysgu a geirfa newydd.
- Cyn i chi ddechrau siarad, sicrhewch fod pawb wedi teui eu microffonau a bod dim sŵn cefndir.
- Meddylwch am gyflymdra eich gwers – siaradwch yn araf ac yn glir a defnyddiwch seibiannau naturiol.
- Peidiwch â chyflwyno gormod o wybodaeth yn rhy gyflym, a cheisiwch osgoi newid cyflymder neu gynnwys yn sydyn.
- Defnyddiwch iaith glir a pheidiwch â defnyddio jargon. Rhowch esboniadau ar gyfer geirfa newydd, anghyfarwydd neu allweddol ac ail-ddwyedwch neu dangoswch fersiwn ysgrifenedig o'r gair.
- Defnyddiwch frawddegau clir syml a pheidiwch â defnyddio strwythurau iaith cymhleth neu grwydro o'r pwynt.
- Sicrhewch fod cyfarwyddiadau yn glir, a defnyddiwch wybodaeth weledol i'w cefnogi os yw'n briodol.
- Peidiwch â gofyn i'r myfyrwyr i gwblhau tasg pan ydych chi dal yn siarad.

Torri'r cynnwys yn ddarnau

- Torrwch eich gwers yn rhannau clir.
- Ceisiwch osgoi cyfnodau hir pan ydych chi'n siarad yn unig. Cadwch bethau'n ddiddorol drwy ddefnyddio gwahanol weithgareddau.
- Cofiwch gynnwys digon o egwylion – mae gwranddo am gyfnodau hir yn gofyn llawer o ddisgyblion byddar.

Gwnewch y gwaith grŵp yn hygyrch

Meddylwch am sut ydych chi am gynnwys disgyblion yn eich gweithgareddau a'ch rhyngweithiadau drwy:

- sicrhau bod cyd-ddisgyblion yn deall sut i gyfathrebu yn effeithiol ar-lein
- sicrhau bod fideo disgybl ymlaen cyn iddyn nhw siarad fel bod y disgybl byddar yn gallu gweld ei wyneb
- gofyn i un disgybl i siarad ar y tro ac ail-ddweud neu aralleirio ei ateb
- defnyddio'r swyddogaeth sgwrs neu greu sgwrs grŵp

Gwnewch ddefnydd da o gymorth cyfathrebu

- Os ydy'r plant yn darllen yn rhugl, meddylwch am ddefnyddio capsionau caeedig, is-deitlau neu drawsgriafiad byw.
- Bydd angen ar rai myfyrwyr rywfaint o gymorth arwyddion neu fod rhai o'r cynnwys yn cael ei ddehongli. Sicrhewch y ddarpariaeth yn ei lle cyn cyflwyno'r wers.
- Os ydych chi'n gweithio gyda gweithwyr cymorth cyfathrebu (GCC) neu ddehonglwyr, sicrhewch fod ganddyn nhw fynediad at gynnwys eich gwers ymhell ymlaen llaw.

Mae'r [erthygl](#) hon yn cynnwys mwy o wybodaeth am sut i wneud cyfathrebu yn hygyrch i ddysgwyr byddar.

Defnyddiwch yr holl dechnoleg sydd ar gael

- Siaradwch â disgyblion byddar cyn i chi ddechrau'r wers a sicrhewch fod technoleg a dyfeisiau clywed yn gweithio, er enghraifft clustffonau, ffrydwyr a chymhorthion radio.
- Sicrhewch fod disgyblion byddar yn ymwybodol o'r opsiynau hygyrchedd ar eich llwyfan ddysgu, er enghraifft capsion byw ar Microsoft Teams.

- Sicrhewch fod yr opsiynau hyn yn hollol hygyrch ar draws ystod o dechnoleg yn cynnwys cyfrifiaduron, gliniaduron, tabledi a ffonau.
- Sicrhewch fod ansawdd y llun a'r sain mae'ch llwyfan yn eu darparu yn dda.
- Os ydych chi'n dangos fideo gyda chynnwys clywedol, sicrhewch ei fod yn hygyrch drwy is-deitlau, er enghraifft.
- Recordiwch eich gwrs a gadewch i ddysgwyr i gael mynediad at y recordiad er mwyn iddyn nhw allu ei wyllo unwaith eto ar eu cyflymder eu hunain.

Defnyddiwch gymorth gweledol

- Defnyddiwch ddelweddau fel gwrthrychau, lluniau ac animeiddiadau i gefnogi dysgu ond peidiwch ag ychwanegu unrhyw wybodaeth weledol ddiangen.
- Peidiwch â rhoi gormod o gynnwys ar sleidiau PowerPoint a chadwch y wybodaeth yn glir ac yn addysgiadol.
- Os ydych chi'n defnyddio geirfa newydd mewn cyflwyniad gadewch i ddisgyblion i glicio ar yr air ac i ddarllen yr ystyr mewn geirfa sydd wedi ei llenwi o flaen llaw.
- Os ydych chi'n defnyddio cynnwys gan ddarparwyr eraill, sicrhewch ei fod yn hygyrch i'r disgybl byddar.

Gofynnwch am adborth

Gofynnwch am adborth gan eich disgyblion. Gofynnwch gwestiynau am:

- ba mor hawdd oedd deall yr hyn oedd rhai iddyn nhw ei wneud
- cyflymder y ddarpariaeth
- hygyrchedd y delweddau a'r fideos.

Ffrydio byw

Efallai bydd rhai ysgolion yn dewis i ffrydio'au gwersi'n fyw o'r ystafell ddosbarth, yn enwedig os oes yna rai disgyblion sy'n hunan-ynysu gartref.

Cyn i chi benderfynu ar ffrydio eich gwrs yn fyw o'r ystafell ddosbarth, meddyliwch am y pethau canlynol.

Lleoli

- A oes rhaid i'r dysgwr byddar ddarllen gwefusau a gweld eich wyneb drwy'r amser?
- Sut ydych chi am rannu gwybodaeth weledol?
- A all y dysgwr byddar weld eich wyneb pan ydych chi'n rhannu sleidiau?

Sain

- A all y disgybl eich clywed chi'n glir drwy'r amser? Bydd opsiynau microffon yn dibynnu ar sut mae'ch dosbarth wedi'i pharatoi a'ch modd o ddysgu
- A oes gan y disgybl fynediad at dechnoleg gartref a all helpu nhw gael mynediad at gynnwys clywedol?

Is-deitlau

- Gall capsionau byw helpu yn arbennig os ydy'r myfyriwr yn meddu ar sgiliau prosesu clywedol da ond a ydyn nhw'n ddigon cywir?

- Gall defnyddio capsynau byw dros gyfnod hir fod yn flinedig iawn felly a oes yna ffordd arall i gyflwyno gwybodaeth allweddol cyn y wers?

Hyfforddiant

- A ydy'r dysgwr byddar yn teimlo'n gyfforddus gyda, ac yn deall sut i wneud y gorau o swyddogaethau'r llwyfan rydych chi'n ei defnyddio?

Rhyngweithio a gwaith grŵp

- Sut ydych chi am gynnwys y disgybl yn ystyrlon yn y wers gan ystyried polisiau diogelu?

Profiad y dysgwr

- A fydd hyn yn brofiad cadarnhaol i'r dysgwr? Os na, meddyliwch am arddulliau eraill.

Asesu

Gall asesiadau ar-lein fod yn heriol i ddisgyblion byddar. Rhaid cymryd gofal i sicrhau na fydd disgyblion o dan anfantais am nad ydyn nhw'n deall yr hyn y mae gofyn iddyn nhw ei wneud. Byddwch yn ymwybodol o'r pethau canlynol.

Cynnwys clywedol

- Os nad ydy'r asesiad yn profi sgiliau gwranddo, efallai bydd y cynnwys clywedol yn anfantais i'r disgybl byddar. Os oes angen defnyddio'r cynnwys clywedol – naill ai i asesu sgiliau gwranddo neu oherwydd na all y plentyn ddarllen cyfarwyddiadau yn hawdd, meddyliwch am ddefnyddio dehonglydd neu siaradwr byw.

Cyfarwyddiadau

- A ydy'r cyfarwyddiadau yn glir ac yn syml? A ydy'r iaith sy'n cael ei defnyddio yn gyfarwydd i'r plentyn? A ydy strwythur y brawddegau yn syml gyda'r wybodaeth fwyaf pwysig yn dod yn gyntaf?

Delweddau

- A ydy'r delweddau yn ddefnyddiol neu'n gamarweiniol? Mae disgyblion byddar yn fwy tebygol o chwilio am wybodaeth o ddelweddau ac mae'n bosib gall gwybodaeth gystadleuol dynnu eu sylw.

Cymorth

- Gall asesiadau achosi straen i bob disgybl ond gall disgyblion byddar boeni mwy oherwydd anawsterau canfyddedig neu wirioneddol mewn cael mynediad at, a chwblhau profion. Sicrhewch fod disgyblion yn teimlo eu bod nhw'n derbyn digon o gymorth drwy gynllunio a pharatoi yn ofalus.

Diogelu

Mae diogelu a lles dysgwyr o'r pwys mwyaf ac yn cael blaenoriaeth dros bob ystyriaeth arall. Dylech chi ddilyn polisiâu diogelu eich ysgol drwy'r amser. Dylech chi drin unrhyw broblemau mewn perthynas â diogelu ar-lein yn yr un modd â dysgu wyneb yn wyneb.

Cynllunio gofalus

Bydd cynllunio gofalus yn hanfodol er mwyn sicrhau gwrs sy'n cael ei ffrydio'n fyw lwyddiannus a diogel.

- Meddylwch am argaeledd disgyblion, a nifer y disgyblion a all gael eu cynnwys yn llwyddiannus ar gyfer gwrs ddiogel.
- Sicrhewch fod hyd y wers sy'n cael ei ffrydio'n fyw yn addas i ddisgyblion byddar.
- Meddylwch am anghenion technoleg y disgybl byddar. Os yw'n debygol y bydd y mynediad yn anghyfartal oherwydd problemau technolegol, efallai hoffech chi feddwl am fformatau gwrs gwahanol.
- Sicrhewch fod y wers wedi cael ei chynllunio o flaen llaw i roi digon o rybudd i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff cymorth yn ôl y gofyn.
- Sicrhewch fod y cynnwys yn addas ac os oes yna unrhyw dasgau sydd angen ymchwil ar-lein, sicrhewch fod y gwefannau yn addas/hygyrch cyn y wers.
- Byddwch yn ystyrlon os ydy'r wers yn cynnwys tasgau, efallai bydd angen mwy o amser ar rai dysgwyr byddar nag eraill.

Lleoliad a gosodiadau'r camera

Meddylwch yn ofalus am eich lleoliad a gosodiadau'ch camera

- Dewiswch leoliad niwtral sy'n addas ac yn ddiogel, heb ymyriadau. Er enghraifft, mae Microsoft Teams yn eich galluogi chi i newid neu orchuddio eich cefndir.
- Anogwch ddisgyblion byddar i weithio o leoliad gartref addas sy'n cael ei rhannu, lle mae lefelau isel o sŵn cefndir fel na fyddan nhw'n colli unrhyw wybodaeth hanfodol i'w cadw nhw'n ddiogel.

Ymddygiad disgyblion

- Sicrhewch fod disgyblion yn derbyn gwybodaeth glir a diamwys am ddisgwyliadau ac ymddygiad derbyniol ac atgyfnerthwch y rhain yn aml er mwyn osgoi camddealltwriaeth. Efallai bydd rhaid i chi rannu'r rhain mewn mwy nag un fformat a gyda rhieni a gofalwyr.

Gwybodaeth bellach

Mae [ein blog](#) ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn darparu mwy o wybodaeth ar goronafeirws a chymorth addysg ar gyfer plant byddar.

Os ydych chi'n creu adnoddau newydd, efallai bydd ein cyngor [How to make your resources accessible to deaf children and young people](#), hefyd yn ddefnyddiol.

Diweddarwyd diwethaf: Rhagfyr 2020.